


Cymeriadau Difyr



Llyfr:	Sara Sero (0)
Adnoddau:	<ul style="list-style-type: none"> Casgliad o wrthrychau (teganau, cownteri, neu ddeunyddiau naturiol fel cerrig neu ddail). Cynwysyddion neu hambyrddau gwag. Cerdyn '0' wedi'i argraffu neu wedi'i dynnu â llaw (digon mawr i fod yn weladwy).
Camau:	<p>Nod: Helpu dysgwyr ifanc i ddeall y cysyniad o '0' yn cynrychioli 'dim' trwy archwilio a thrafod.</p> <p>Cam 1 - Cyflwynwch y rhif 0: dechreuwch trwy ddangos y cerdyn '0' i'r dysgwyr ac eglurwch ei fod yn cynrychioli 'dim'. Er enghraifft, 'Os oes gyda ni 0 afal, does gyda ni ddim unrhyw afalau.'</p> <p>Cam 2 - Cyfrif Gyda'n Gilydd: Rhowch ychydig o wrthrychau mewn un cynhwysydd a gadewch gynhwysydd arall yn wag. Cyfrwch y gwrthrychau yn y cynhwysydd cyntaf, yna gofynnwch, 'Faint sydd yn y cynhwysydd gwag?' Arweiniwch y dysgwyr i ddeall ei fod yn '0'.</p> <p>Cam 3 - Helfa Drysor: Trefnwch grwpiau bach o wrthrychau (e.e. 3 chownter, 2 garreg) mewn gwahanol fannau o amgylch yr ystafell neu'r ardal awyr agored. Cofiwch gynnwys ychydig o leoliadau lle mae 0 gwrthrych.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn symud o gwmpas, yn cyfrif yr eitemau ym mhob man, ac yn galw '0!' pan fyddan nhw'n dod o hyd i le gwag.</p> <p>Gweithgaredd Didoli: Rhowch amrywiol gynwysyddion i'r dysgwyr - rhai â gwrthrychau a rhai yn wag. Gofynnwch iddyn nhw ddidoli'r cynwysyddion yn ddau grŵp: y cynwysyddion â 'rhai' a'r cynwysyddion â '0'.</p>
Cwestiynu:	<ul style="list-style-type: none"> Beth mae 0 yn ei olygu? Allwch chi ddod o hyd i gynhwysydd gyda 0 gwrthrych? Pam rydyn ni'n ei alw'n '0' pan does dim byd y tu mewn?
Beth nesaf?	Cysylltiad Celf (dewisol): Gadewch i'r plant dynnu llun rhif mawr o '0' a'i addurno â gliter neu ddeunyddiau i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o siâp y rhif.

